## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (CYFFORDD 11 (CYFNEWIDFA LLYS Y GWYNT), BANGOR, GWYNEDD I (GYLCHFAN Y GLEDRYD), Y WAUN, WRECSAM I FFIN CYMRU/LLOEGR) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A5 neu gerllaw iddi, o’i chyffordd â chefnffordd yr A55 wrth Gyfnewidfa Llys y Gwynt, Gwynedd hyd at Ffin Cymru/Lloegr, Wrecsam.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd (ac eithrio’r rheini sy’n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith) rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A5 sy’n ymestyn o Gyffordd 11 yr A55 wrth Gyfnewidfa Llys y Gwynt, Gwynedd, hyd at Gylchfan y Gledryd, y Waun ar ffin Cymru/Lloegr, Wrecsam.

ii. gosod terfyn cyflymder o naill ai 50 mya, 40 mya, 30 mya neu 10 mya ar y darn o’r A5 a ddisgrifir uchod. Bydd y terfynau cyflymder 50 mya, 40 mya neu 30 mya yn weithredol yn ysbeidiol yn ystod cyfnod y gwaith. Dim ond yn ystod gwaith confoi y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn weithredol ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Bydd unrhyw ffordd sydd ar gau yn llwyr yn cael ei rheoli gan oleuadau traffig. Dim ond am gyfnodau byr y bydd y ffordd ar gau a bydd arwyddion traffig a osodir ymlaen llaw yn dangos y cyfnodau hynny. Nid oes angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a’r cyfyngiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 00:01 o’r gloch ar 31 Awst 2024 ac yn weithredol yn ysbeidiol tan 23:59 o’r gloch ar 27 Chwefror 2026 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Gellir gweld copi o’r Gorchymyn a’r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o’r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A5 TRUNK ROAD (JUNCTION 11, (LLYS Y GWYNT INTERCHANGE), BANGOR, GWYNEDD TO (GELDRID ROUNDABOUT), CHIRK, WREXHAM TO THE WALES/ENGLAND BORDER) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A5 trunk road, from its junction with the A55 trunk road at Llys y Gwynt Interchange, Gwynedd to the Wales/England Border, Wrexham.

The effect of the Order will be to temporarily:

i. prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works) from proceeding on the length of the A5 trunk road that extends from Junction 11 of the A55 trunk road at Llys y Gwynt Interchange, Gwynedd to Gledrid Roundabout, Chirk on the Wales/England border, Wrexham.

ii. impose either a 50 mph, 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the A5 described above. The 50 mph, 40 mph or 30 mph speed limit will operate intermittently during the work periods. The 10 mph speed limit will only operate during convoy working and no overtaking will be permitted during these times.

Any full road closures will be controlled under traffic lights and indicated by advance traffic signs and will only be for short periods of time. No diversionary routes are necessary.

It is expected that the temporary prohibitions and restrictions, which will be signed accordingly, will come into force at 00:01 hours on 31 August 2024 and operate intermittently until 23:59 hours on 27 February 2026 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government’s website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government